Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Pant Pastynog
# Prion
# LL16 4SG

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2019

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Pant Pastynog

Mae Ysgol Pant Pastynog yn gwasanaethu pentrefi Prion, Peniel, Saron, Nantglyn a'r ardal wledig gyfagos yn awdurdod lleol Sir Ddinbych. Mae'r ysgol o dan reolaeth wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru.

Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol, ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae 78 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 8 oed meithrin, rhan-amser.

Mae cyfran cyfartalog y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim dros y tair blynedd ddiwethaf tua 4% sy'n sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%. Mae tua 80% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 13% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn is na'r ganran genedlaethol, sy'n 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011 a phenodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym mis Medi 2013.

Nid yw Estyn yn arolygu addysg grefyddol na chynnwys crefyddol addoli ar y cyd pan fydd cymeriad crefyddol gan yr ysgol. Yn hytrach, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r corff llywodraethol drefnu bod addysg grefyddol ac addoli ar y cyd yn cael eu harolygu ar wahân.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, gofalgar a chynhwysol iawn lle mae bron pob un disgybl yn dangos balchder mawr o fod yn rhan ohoni.

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel iawn, a gweledigaeth sy'n seiliedig ar ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf posibl. Un o nodweddion rhagorol yr ysgol yw'r modd y mae aelodau staff a llywodraethwyr yn cydweithio'n arbennig o effeithiol.

Mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd ddysgu gefnogol ac ysgogol iddynt, ac yn sicrhau eu bod yn cyflawni'n dda. Mae safonau lles ac agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn hynod gadarn. Mae disgyblion yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn a chyfrannu at agweddau pwysig ar waith yr ysgol. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson, sydd o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Argymhellion

A1 Gwella medrau ysgrifennu creadigol ac annibynnol y disgyblion yn y Gymraeg a Saesneg, lle bo’n briodol

A2 Gwella cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â chyfraniad y disgyblion i fywyd a gwaith yr ysgol, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd cadarn a chyson yn eu dysgu. Maent yn dangos gwir ddiddordeb yn eu tasgau ac yn gweithio'n ddiwyd am gyfnodau estynedig. Mae bron pob un sy'n dod o gartrefi lle nad y Gymraeg yw iaith yr aelwyd yn caffael medrau cyfathrebu Cymraeg da iawn yn fuan. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog yn erbyn eu targedau.

Mae medrau llafar y disgyblion yn gryfder ar draws yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n astud, yn siarad yn eglur ac yn mynegi eu syniadau'n hyderus iawn. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith gydag oedolion a disgyblion eraill yn wybodus a brwdfrydig, er enghraifft wrth adrodd hanes ymweliad yr awdures Bethan Gwanas â'r ysgol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith ac yn cynnig atebion, sylwadau a mynegi barn yn hynod aeddfed. Maent yn dangos balchder at yr iaith Gymraeg ac yn dewis defnyddio'r iaith i gymdeithasu amser chwarae yn ogystal ag yn eu gwersi. Ar frig yr ysgol, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon dda iawn o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen bron pob disgybl yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl a chywir ac yn ymdrechu'n aeddfed i adeiladu geiriau sy'n anghyfarwydd iddynt. Maent yn darllen gyda mynegiant ac ystyr clir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn darllen yn ddeallus ac yn aeddfed yn y ddwy iaith. Gwnânt ddefnydd effeithiol o'u medrau darllen i gywain gwybodaeth berthnasol o lyfrau a thestunau amrywiol ac oddi ar wefannau priodol i gyfoethogi eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn ddiweddar, roeddent yn chwilio am wybodaeth am y Rhufeiniaid a bywyd yn ystod y chwedegau ar gyfer eu gwaith thema.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn effeithiol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio ansoddeiriau i gyfoethogi eu gwaith yn fedrus, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o Elfed yr eliffant. Maent yn sillafu'n gywir ac yn atalnodi'n bwrpasol gan amlaf. Ar ddechrau cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfleu gwybodaeth yn eglur at ddibenion gwahanol. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa bwrpasol i gyfoethogi eu gwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg, er enghraifft wrth greu taflen wybodaeth am Malala Yousafzai. Fodd bynnag, cyfyng yw medrau ysgrifennu creadigol annibynnol y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn gadarn wrth symud drwy'r ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu'u medrau rhif yn llwyddiannus mewn gwersi mathemateg. Maent yn defnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi syml yn dda. Maent yn defnyddio offer ac unedau mesur ansafonol a safonol yn fedrus mewn amrywiaeth o dasgau. Maent yn casglu, cofnodi a chyflwyno data yn gywir, er enghraifft wrth lunio graff i gofnodi eu hoff drychfilod. Mae rhan fwyaf o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dealltwriaeth gadarn o dermau rhifedd ac yn cymhwyso eu medrau yn dda wrth ddatrys heriau

penodol, fel canfod faint o ddŵr mae un teulu'n ei ddefnyddio dros gyfnod. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o ffracsiynau, canrannau a degolion. Maent yn casglu gwybodaeth a chynhyrchu graffiau clir i gymharu effaith ymarfer corff ar guriad y galon, er enghraifft, gan ddadansoddi eu canfyddiadau'n fedrus. Fodd bynnag, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol wedi datblygu eu medrau rhifedd yn ddigon cadarn ar draws y cwricwlwm.

Mae safon medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio rhaglenni prosesu geiriau yn bwrpasol, er enghraifft i greu lluniau cyfrifiadurol ac i ysgrifennu disgrifiadau cyfatebol diddorol. Maent yn hyderus wrth ddilyn cyfarwyddiadau cyfeirio i reoli tegan electronig yn effeithiol ac maent yn defnyddio rhaglenni animeiddio yn fedrus i greu cyflwyniadau syml am longddrylliad y Titanic. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn creu ac archwilio data yn effeithiol i greu cyflwyniadau amlgyfrwng i atgyfnerthu eu gwaith, er enghraifft i ddangos ffyrdd o gadw'n ddiogel ar y we. Mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio'u medrau TGCh yn hyderus i gasglu data ar ffurf taenlen i gyflwyno eu gwaith mewn gwyddoniaeth neu i gynhyrchu ffilm fer bwrpasol a diddorol yn seiliedig ar chwedl Cantre'r Gwaelod.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Rhagorol**

Mae safonau lles ac agweddau bron pob un disgybl tuag at ddysgu yn hynod gadarn ac mae safon eu hymddygiad a'u hunanddisgyblaeth yn uchel iawn. Maent yn ddysgwyr brwdfrydig sy'n cydweithio'n arbennig o effeithiol gyda'u cyfoedion mewn grwpiau ac mewn parau ac maent yn dangos lefel uchel o aeddfedrwydd a pharch at farn eraill. Dangosant fwynhad a balchder yn eu gwaith, gan ddyfalbarhau â'u tasgau am gyfnodau estynedig.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n llwyddiannus at y gweithgareddau yr hoffent eu dysgu ar ddechrau pob thema. Maent yn dewis targedau'n annibynnol ac yn herio eu dysgu eu hunain er mwyn pennu cyfeiriad dysgu clir. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn cymryd perchnogaeth dda am eu dysgu ac yn dod yn gynyddol ymwybodol o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith eu hunain.

Mae bron pob un yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd gwerthfawr a ddarperir iddynt fynegi eu barn a chyfrannu at agweddau pwysig ar waith yr ysgol. Mae aelodau'r gwahanol bwyllgorau yn arwain yn frwdfrydig iawn ac yn dangos balchder amlwg yn eu cyfraniad at sawl agwedd o fywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn arwain yn effeithiol wrth esbonio hawliau plant i weddill y disgyblion ac yn sicrhau eu bod yn deall bod hawl iddynt gael eu trin yn gyfartal ac fel unigolion. Mae'r llysgenhadon chwaraeon yn darparu adnoddau priodol i gyfoethogi profiadau chwarae yn ystod amser egwyl yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at ddealltwriaeth disgyblion o'r gwahanol agweddau ar eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae disgyblion yn datblygu medrau arwain yn llwyddiannus iawn ac mae eu cyfraniad at faterion cymunedol yn ardderchog. Mae'r pwyllgor eco yn arwain prosiect mewn partneriaeth â chwmni Cyfoeth Naturiol Cymru i gasglu ac ailblannu mes i warchod coedwigoedd. Mae'r pencampwyr digidol, ar y llaw arall, yn cyflwyno sesiynau hyfforddi i aelodau'r gymuned ar sut i ddefnyddio offer TGCh.

Mae disgyblion yn cefnogi gweithgareddau dyngarol yn rheolaidd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cefnogaeth o ansawdd uchel gan oedolion. Maent yn hyderus i droi at ei gilydd ac unrhyw aelod o staff os oes ganddynt bryderon. Mae'r disgyblion hŷn yn dangos gofal arbennig am y disgyblion iau yn ystod amser egwyl. Mae hyn yn nodweddiadol o'r gydberthynas adeiladol a chefnogol sy'n bodoli ar draws cymuned yr ysgol. Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth gadarn iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac o gadw'n heini.

Mae cyfraddau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel. Maent wedi bod yn uwch na'r cymedr o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pum mlynedd ddiwethaf. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod disgyblion yn mwynhau mynychu'r ysgol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae staff yn sefydlu perthynas waith dda iawn gyda'r disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu cefnogol ac ysgogol iddynt, ac yn sicrhau eu bod yn cyflawni'n dda. Mae athrawon yn defnyddio ystod goeth o ddulliau dysgu llwyddiannus i ddatblygu medrau'r disgyblion. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob un ac mae ansawdd eu cyflwyniadau a'u cwestiynau yn heriol a phwrpasol iawn. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un disgybl yn ymroi'n llwyr i'w tasgau, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn arddangos cymhelliant clir i lwyddo. Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn gweithio'n effeithiol fel tîm ac yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion, sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at eu medrau llafar cyfoethog. Fodd bynnag, ar adegau, mae tueddiad ganddynt i or-arwain y disgyblion.

Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu sefydlu'n gadarn drwy'r ysgol. Rhoddir adborth llafar ac ysgrifenedig adeiladol i ddisgyblion er mwyn iddynt ddeall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith. Darperir cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu eu hunain a'u cyfoedion ac i gyfrannu'n effeithiol at y broses o osod targedau ar gyfer gwella'u gwaith. Mae'r elfen hon yn gryfder yn yr ysgol ac yn cyfrannu'n dda at gynnydd a chyflawniad disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o brofiadau dysgu cyfoethog sy'n diwallu anghenion disgyblion o bob oed a gallu yn llwyddiannus. Trwy gydweithio effeithiol a gosod arweiniad clir, mae athrawon yn sicrhau bod cyfleoedd i'r holl ddisgyblion brofi amrediad o weithgareddau symbylus. Mae themâu trawsgwricwlaidd yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ac yn cryfhau eu hymglymiad i'w gwaith yn llwyddiannus iawn. Dilynwyd 'Llais y Plentyn' wrth gynllunio'r themâu cyfredol 'dan y dŵr' yn y cyfnod sylfaen, ac mae'r thema 'dŵr' yng nghyfnod allweddol 2 wedi sbarduno diddordeb mawr ymysg y disgyblion o drychineb y 'Royal Charter'. Mae hyn yn ennyn eu hymrwymiad a'u diddordeb yn dda.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol yn sicrhau bod pob disgybl yn elwa o weithgareddau ysgogol y tu mewn a thu allan. Darperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae athrawon cyfnod allweddol 2 yn adeiladu'n dda ar y

sylfaen hon drwy annog disgyblion i gymhwyso'u medrau mewn tasgau heriol. Darperir cyfleoedd buddiol i ddatblygu medrau llythrennedd a TGCh disgyblion yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm gan sicrhau dilyniant a pharhad yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd a ddarperir iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu creadigol a rhifedd yr un mor effeithiol.

Mae gan yr ysgol ethos Cymreig naturiol, ac mae'r holl staff yn creu naws hynod gadarnhaol sy'n hyrwyddo hyn yn fedrus ac yn ennyn brwdfrydedd y disgyblion tuag at yr iaith. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn gyffrous ac yn llawn dychymyg. Mae profiadau fel wythnos menter a busnes, diwrnod y llyfr ac ymweliadau beirdd ac awduron adnabyddus yn codi ymwybyddiaeth o draddodiadau a dathliadau Cymreig yn dda.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol**

Mae'r ysgol yn gymuned deuluol, ofalgar a chynhwysol iawn lle mae bron pob un disgybl yn dangos balchder mawr o fod yn rhan ohoni. Mae lles pob disgybl yn cael lle blaenllaw yn narpariaeth yr ysgol. Mae'r staff yn darparu arweiniad, gofal a chymorth arbennig iawn ar gyfer y disgyblion a'u teuluoedd. Rhoddir pwyslais cryf ar ddathlu amrywiaeth ac ar dangos parch a chwrteisi tuag at eraill. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac ymddwyn yn dda iawn. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r staff yr ysgol yn meithrin gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a chyfiawnder yn hynod lwyddiannus. O ganlyniad, mae gan bron pob un disgybl ddealltwriaeth gadarn iawn o'u hawliau dynol a phwysigrwydd gwneud penderfyniadau doeth er lles pawb.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol iawn. Mae'r athrawon yn defnyddio'r gweithdrefnau olrhain cynnydd yn hynod lwyddiannus i adnabod y disgyblion sydd angen her neu gymorth penodol yn gyflym. Mae'r rhaglenni ymyrraeth a'r gefnogaeth o fewn y dosbarthiadau yn bodloni anghenion y disgyblion yn fedrus. Mae cynlluniau addysg unigol y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn bwrpasol ac yn cynnwys targedau meintiol i ddiwallu eu hanghenion. Caiff y cynlluniau eu hadolygu'n drylwyr a rheolaidd ar y cyd â'r disgyblion a'u rheini. Mae'r modd y defnyddir arbenigedd aelod staff o ysgol gyfagos yn arloesol ac yn cyfrannu'n llwyddiannus iawn at sicrhau darpariaeth o'r radd uchaf ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus. O ganlyniad i'r gweithdrefnau hynod effeithiol hyn, mae bron pob un disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd ardderchog o'u man cychwyn.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref iawn gyda'r rhieni. Mae'r ysgol yn gweithredu polisi drws agored yn hynod lwyddiannus ac yn cyfathrebu'n effeithiol iawn gyda rhieni i sicrhau eu bod yn ymwybodol o ddigwyddiadau a gwaith yr ysgol. Mae rhieni'n mynychu diwrnodau agored defnyddiol iawn sydd yn sicrhau y gallant gefnogi eu plant gartref.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i annog disgyblion i fwyta ac yfed yn iach ac mae'r staff yn hybu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd cadw'n heini yn llwyddiannus. Mae'r cyfleoedd buddiol i'r disgyblion ymgymryd â gwersi i'w tawelu ac ymuno yn y

sesiynau “dal i fynd” yn cyfoethogi eu profiadau yn dda iawn. Mae ymweliadau gan unigolion fel yr heddwas cymunedol yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o beryglon camddefnyddio sylweddau ac ysmygu ynghyd â pheryglon defnyddio’r we yn dda. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd gofalu am eu hiechyd a chadw’n ddiogel ar-lein.

Mae’r staff yn cynnig llawer o gyfleoedd i’r disgyblion gyfrannu at waith yr ysgol drwy fod yn aelodau o amryw bwyllgorau. Mae’r cyfleoedd hyn yn datblygu medrau arwain y disgyblion yn dda dros ben ac yn dylanwadu ar fywyd yr ysgol yn wych. Er enghraifft, mae gwaith llysgenhadon y Siarter Iaith yn gampus ac yn cyfrannu’n hynod lwyddiannus at safon ardderchog iaith lafar bron pob un disgybl.

Mae darpariaeth yr ysgol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn arbennig iawn. Rhoddir cyfleoedd gwych i ddisgyblion gystadlu mewn eisteddfodau, gweithio gydag awduron fel Bethan Gwanas ac arlunwyr o Gymru. Maent yn trefnu amrywiaeth dda iawn o ymweliadau i ddisgyblion, gan gynnwys gwersyll yr Urdd Glan Llyn a chartref Hedd Wyn. O ganlyniad, mae’r disgyblion yn ymfalchïo yn niwylliant Cymru, ei hanes a’i threftadaeth.

Mae’r disgyblion yn dysgu am ddiwylliant a hanes gwledydd eraill yn dda dros ben, er enghraifft drwy gyfnewid addurniadau Nadolig gyda nifer o wledydd tramor. Maent yn dysgu am fywyd ffoaduriaid fel Mo Farah ac effaith rhyfel ar fywyd pobl o Syria. O ganlyniad, mae bron pob un disgybl, o oed ifanc, yn dangos empathi angerddol tuag eraill sydd yn cyfrannu’n llwyddiannus at ethos gofalgar yr ysgol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Mae ganddo ddisgwyliadau uchel iawn, a gweledigaeth sy’n seiliedig ar ddarparu addysg o’r ansawdd uchaf posibl i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf ei allu. Mae’n cyfleu’r weledigaeth hon yn llwyddiannus iawn i’r staff, disgyblion, rhieni a’r llywodraethwyr. O ganlyniad, mae gan bawb ddealltwriaeth glir o’u cyfrifoldebau a disgwyliadau uchel iawn ohonynt eu hunain, ac o safonau cyflawniad a lles disgyblion.

Un o rinweddau cryfaf arweinyddiaeth yr ysgol yw’r modd y mae cyfrifoldebau’n cael eu dosrannu’n hynod o effeithiol ymhlith y staff. Mae hyn yn rhan greiddiol o’i strategaeth ac yn fodd effeithiol i ddatblygu staff, hybu cydweithio llwyddiannus iawn a rhannu arfer dda. O ganlyniad, mae gweithdrefnau cyfathrebu eglur yn bodoli rhwng yr holl staff. Maent yn cydweithio’n hynod effeithiol fel tîm ac yn cyfarfod yn rheolaidd i fonitro a gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau’r ysgol. Mae gan yr holl staff ymrwymiad cryf i ddysgu’n broffesiynol a hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy gyfranogi’n llwyr yn y trefniadau rheoli perfformiad trylwyr, sy’n cynnwys cytuno ar dargedau heriol a pherthnasol. Mae enghraifft dda o hyn yn cynnwys y modd effeithiol y mae’r ysgol yn cyfoethogi’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion drwy eu hannog i ddewis lefel her briodol iddyn nhw eu hunain.

Nodwedd arbennig o arweinyddiaeth yr ysgol yw’r ffordd hynaws y mae’r pennaeth yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i aelodau staff arwain mentrau sy’n seiliedig ar agweddau penodol o’r cwricwlwm. Mae’r prosiect asesu ar gyfer dysgu gyda rhwydwaith o ysgolion eraill yn darparu cyfleoedd ardderchog i staff ymchwilio a

myfyrio ar effaith defnyddio gwahanol dechnegau asesu ffurfiannol gyda'r disgyblion. Mae hyn yn sicrhau dealltwriaeth a chysondeb yn y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae disgyblion o oed ifanc iawn yn gwybod sut i symud eu dysgu i'r cam nesaf yn llwyddiannus.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn adnabod yr ysgol yn dda iawn. Maent yn wybodus tu hwnt am berfformiad yr ysgol o gymharu ag ysgolion eraill, ac maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol iawn i osod blaenoriaethau a thargedau ar gyfer gwella. Fe ddefnyddir arbenigedd aelodau'r corff llywodraethol yn bwrpasol iawn i gefnogi a herio'r pennaeth a'r staff yn drwyadl pan fo'n briodol gwneud hynny. Maent yn ymweld â'r ysgol yn rheolaidd, sy'n rhoi trosolwg ardderchog iddynt o gryfderau'r ysgol ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Mae'r ysgol yn meddu ar weithdrefnau hunanwerthuso parhaus a thrylwyr, sy'n canolbwyntio'n glir ar ddeilliannau disgyblion. Maent yn greiddiol i holl fywyd a gwaith yr ysgol ac yn hyrwyddo gweledigaeth ddidwyll i godi safonau a sicrhau lles ardderchog y disgyblion. Mae gan yr ysgol ymrwymiad cadarn i gynnwys cyfranogiad disgyblion yn ei holl benderfyniadau, sy'n cynnwys eu barn am gynnwys eu gwaith tymhorol ynghyd â gweithdrefnau cyffredinol ar waith yr ysgol o ddydd i ddydd. Mae gallu'r ysgol i gynllunio i sicrhau gwelliant yn ardderchog. Mae'r cynnydd mewn cyrhaeddiad disgyblion o'u man cychwyn yn dystiolaeth dda o hyn.

Fe ddefnyddir adnoddau'n effeithlon iawn i gyfoethogi'r cwricwlwm a chodi safonau disgyblion ym mhob maes. Mae gwariant wedi ei gysylltu'n briodol â blaenoriaethau'r cynllun gwella a chaiff y cyllid ei fonitro'n ofalus er mwyn sicrhau'r defnydd gorau ohono ac i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Er enghraifft, fe ddefnyddir y grant datblygu disgyblion yn ddarbodus i godi safonau'r ychydig iawn o ddisgyblion sy'n gymwys i'w dderbyn. Fe welir cynnydd amlwg ym medrau darllen y disgyblion hyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  12/08/2019